# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **5 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

## Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002
Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Rhannu Brand) 2004
Rheoliadau Pecynnau Safonedig i Gynhyrchion Tybaco 2015
Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu drwy Ddirprwy) 2015
Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Bydd y Rheoliadau yn gwneud mân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth y DU mewn perthynas â chynhyrchion tybaco a chynhyrchion mewnanadlu nicotin, gyda rhywfaint o hyn lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Ni fydd y diwygiadau hyn yn rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru na'r Ysgrifennydd Gwladol, ac maent yn gwbl dechnegol eu natur heb unrhyw effaith ar bolisi.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn trosglwyddo nifer o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â labelu a diogelwch tybaco a chynhyrchion tybaco i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn defnyddio'r pwerau hyn i wneud rheoliadau sy'n gymwys i Gymru. Mae pwnc y pwerau hyn yn ymwneud yn bennaf â meysydd lle mae'r cymhwysedd wedi'i gadw yn ôl, sef diogelwch ac atebolrwydd cynhyrchion a labelu cynhyrchion. Ni fyddai modd i'r elfennau hynny o'r pwerau y gellid dadlau eu bod o fewn cymhwysedd wedi ei ddatganoli gael eu harfer yn ystyrlon, yn ymarferol, gan Weinidogion Cymru yn annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro mân ddiffygion yn neddfwriaeth y DU, rhai ohonynt lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, yn codi yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â labelu a manwerthu nwyddau sy'n cynnwys cynhyrchion tybaco.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn trosglwyddo pwerau yn ymwneud â deddfwriaeth tybaco, sydd wedi'u neilltuo i'r Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd, i'r Ysgrifennydd Gwladol, ond gan ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn arfer y pwerau hynny. Mae'r pwerau hyn yn ymwneud â:

- gosod safonau ar gyfer cynhyrchion tybaco ac e-sigaréts fel gosod gweithdrefnau ar gyfer cadarnhau pa mor wenwynig ydynt, diweddaru'r rhestr o ychwanegion ac addasu'r dulliau o fesur tar, nicotin a charbon monocsid
- addasu'r rhybuddion iechyd cyfun ar gynhyrchion tybaco ar gyfer eu smygu a'r rhybuddion iechyd ar becynnau e-sigaréts.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma:
http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111174203/contents

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Nid oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.